# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 29
12/10/20

## Y ffŵl cyfoethog

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!



**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Rachel Hughes, Greg Leavers
a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org**


# Stori



**Fersiwn Beibl.net**

Yna dyma rywun o ganol y dyrfa yn galw arno, “Athro, mae fy mrawd yn gwrthod rhannu'r eiddo mae dad wedi'i adael i ni. Dwed wrtho am ei rannu.”


Atebodd Iesu, “Ffrind, pwy wnaeth fi yn farnwr neu'n ganolwr i sortio rhyw broblem felly rhyngoch chi'ch dau?” 15 Yna dwedodd, “Gwyliwch eich hunain! Mae'r awydd i gael mwy a mwy o bethau yn beryglus. Dim faint o bethau sydd gynnoch chi sy'n rhoi bywyd go iawn i chi.”



A dwedodd stori wrthyn nhw: “Roedd rhyw ddyn cyfoethog yn berchen tir, a chafodd gnwd arbennig o dda un cynhaeaf. ‘Does gen i ddim digon o le i storio'r cwbl,’ meddai. ‘Beth wna i? Dw i'n gwybod! Tynnu'r hen ysguboriau i lawr, ac adeiladau rhai mwy yn eu lle! Bydd gen i ddigon o le i storio popeth wedyn. Yna bydda i'n gallu eistedd yn ôl a dweud wrtho i'n hun, “Mae gen i ddigon i bara am flynyddoedd lawer. Dw i'n mynd i ymlacio a mwynhau fy hun yn bwyta ac yn yfed.”’

“Ond dyma Duw yn dweud wrtho, ‘Y ffŵl dwl! Heno ydy'r noson rwyt ti'n mynd i farw. Pwy fydd yn cael y cwbl rwyt ti wedi'i gasglu i ti dy hun?’ Ie, fel yna bydd hi ar bobl sy'n casglu cyfoeth iddyn nhw'u hunain ond sy'n dlawd mewn gwirionedd, am eu bod heb Dduw.”

*Luc 12:13-21 Beibl.net*




**Fersiwn syml**

Un tro galwodd rhywun o’r dyrfa ar Iesu, “Mae fy nhad wedi marw ac nid yw fy mrawd yn fodlon rhannu’r eiddo gyda fi. Dwed wrtho am ei rannu yn deg”.

Dywedodd Iesu “Nid fy lle i yw stopio dadl fel hyn.” Trodd Iesu at y dyrfa, “Peidiwch â bod yn farus, gwrandewch ar stori’r ffermwr cyfoethog.

Un flwyddyn, cafodd ffermwr gynhaeaf da ond doedd ddim digon o le i gadw’r cnwd.

Meddyliodd wrtho’i hun, ‘Mi dynnaf yn hen adeiladau i lawr ac adeiladu rhai mwy. Bydd digon o le i’r cnwd wedyn.’



Y noson honno dywedodd Duw wrtho, ‘Dyna wirion wyt ti. Heno rwyt ti’n mynd i farw. Pwy sydd am gael dy eiddo di wedyn?’

Mae rhai sydd yn casglu cyfoeth iddyn nhw eu hunain yn dlawd mewn gwirionedd am nad ydyn nhw’n credu yn Nuw.”

# Cwestiynau i’w Trafod

Ar ôl darllen y stori gyda’ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:



1. Oes gen ti ddigon o le i gadw dy deganau, dy ddillad a dy bethau i gyd, neu wyt ti angen mwy o le?
2. Beth wyt ti’n meddwl ydy bod yn gyfoethog?
3. Pwy sy’n gofalu fod gennyt ti bopeth rwyt ti ei angen?
4. Pam wyt ti’n meddwl y buasai rhywun yn dlawd heb fod yn adnabod Duw?

# Gweddi fer



O Dduw,
diolch i Ti am greu popeth! Rwyt Ti mor nerthol!
Diolch i Ti am fy ngharu i ac am roi popeth rydw i ei angen i mi.
Plîs helpa fi i fod yn ddiolchgar am bob dim,
ac yn arbennig am dy gariad Di.
Amen.

# Sialensau

Yn y stori, adeiladodd y ffermwr ysguboriau mwy i ffitio ei holl gnydau i mewn ynddynt.

Sawl peth gwahanol fedri di ei ffitio i mewn i focs matshys neu botyn iogwrt bach?






## Adeiladu Ysguboriau

Adeilada dair ysgubor, un fach, un ganolig ac un fawr.
Meddylia am y dyn cyfoethog a'r ffordd wnaeth o storio ei gyfoeth o.
Cofia di mai'r trysor pennaf ydy profi cariad angerddol Duw tuag atat.






## Sialens rhannu

Chwilia drwy dy deganau, dy ddillad a dy bethau.
Oes yna rywbeth y buaset yn gallu ei roi i rywun sydd ei hangen fwy na ti (brawd neu chwaer, cefnder neu gyfnither, siop elusen)?


# Stori i'w lliwio

## Y ffermwr ffôl a barus


www/lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther





Dywedodd Iesu'r stori hon am ffermwr hunanol, barus i'n hatgoffa i helpu eraill tra'r ydyn ni'n gallu gwneud hynny.



Un haf tyfodd a thyfodd gwenith y ffermwr. Roedd ganddo gnwd anferthol! Roedd y ffermwr yn meddwl ei fod mor glyfar.




"Dydw i ddim am werthu na rhannu dim o'r cnwd hwn," meddai. "Dwi'n mynd i'w gadw fo i gyd i mi fy hun. Fi wnaeth ei dyfu felly mi wnaf ei gadw fo i gyd bob tamaid. Fi biau'r gwenith i gyd. Fi, fi, fi.




"Mae fy ysguboriau'n rhy fach, felly fe wna i eu tynnu i lawr, pob un ohonyn nhw ac adeiladu rhai llawer mwy," meddai'r ffermwr. Felly adeiladodd y ffermwr ffôl a barus, ysguboriau mwy a'u llenwi nes eu bod yn llawn dop.




Roedd o'n teimlo mor falch ohono'i hun."Ew, dwi mor glyfar," meddyliodd yn hunanfodlon." 'Dwi wedi tyfu gymaint o wenith fydd dim rhaid i mi weithio byth eto."



Ond y noson honno bu farw'r ffermwr ffôl a barus. Pwy oedd biau'r gwenith nawr 'te? Doedd o'n dda i ddim i'r ffermwr wedi iddo farw!



Adroddodd Iesu'r stori hon i'n helpu i weld fod y pethau sydd gennym ddim ond yn para dros dro. Fedrwn ni ddim mynd â nhw gyda ni wedi i ni farw.



Mae adnabod Duw a'i garu yn llawer gwell na bod yn gyfoethog neu gael llawer o bethau. Mae Duw eisiau i ni rannu'r hyn sydd gennym ag eraill sydd mewn angen. Mae beth bynnag rydan ni'n ei wneud dros Dduw yn para am byth.

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| H | D | G | W | E | R | TH | F | A | W | R | N |
| A | W | W | R | A | M | L | W | D | M | E | S |
| U | A | I | Y | B | I | A | R | N | NG | A | E |
| S | L | R | W | F | Y | M | L | A | C | I | O |
| G | T | I | M | F | E | W | Y | B | Ŵ | R | M |
| L | DD | O | N | F | A | D | Y | O | E | O | E |
| B | A | N | R | U | S | E | I | D | LL | B | D |
| W | D | E | A | I | I | E | A | O | A | U | I |
| Y | R | DD | H | S | O | D | A | H | O | G | D |
| T | LL | U | I | I | N | E | O | P | N | S | W |
| A | C | A | S | G | L | U | L | Ŵ | FF | Y | N |
| D | U | W | DD | G | O | TH | E | O | F | Y | C |


ADNABOD
ANGEN
BWYTA
BYWYD
EISIAU
CASGLU
CNWD
CYFOETHOG
CYNHAEAF
DUW
DWL
FFŴL
GWERTHFAWR

GWIRIONEDD
HAU
IESU
MARW
MEDI
MWY
POENI
STORIO
TLAWD
YFED
YMLACIO
YSGUBOR

# Pos


## Ysgubor neu galon? - Daear neu nefoedd?

Fedri di ddod o hyd i eiriau adnod i'w dysgu a'u rhoi yn y drefn gywir?
Fe allet ti dorri'r lluniau allan a'u rhoi yn y drefn iawn.



# Gemau

## Adeiladu ysgubor



**Byddi angen:** ‘Jelly Babies,’ ffyn coctel, pren mesur

**Sut i chwarae:**
- Rho ychydig o ‘Jelly Babies’ a ffyn coctel i bob chwaraewr.
- Mae gan yr holl chwaraewyr 5 munud i adeiladu'r ysgubor fwyaf ag y gallant.
- Ar y diwedd, mae'n rhaid iddyn nhw i gyd sefyll  oddi wrth eu hysgubor.

## Gêm Trosglwyddo’r Reis



**Byddi angen:**
- reis sych, pys sych neu unrhyw beth tebyg
- dwy lwy de
- dau chwaraewr a dwy bowlen yr un

**Sut i Chwarae**
- Rhowch y reis/pys yn un o’ch bowlenni.
- Gosodwch y bowlen arall nesaf ati.
- Gan ddefnyddio’r llwy de, trosglwyddwch y reis o un bowlen i’r llall. Y chwaraewr buddugol ydy’r un sydd wedi trosglwyddo’r mwyaf o’r reis i’r bowlen arall mewn 30 eiliad.

# Dolenni



Fideo o’r stori
https://www.youtube.com/watch?v=zzFFChbJ4Yg




Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/-s9iXiFjy00





Cartŵn o’r stori
https://www.youtube.com/watch?v=yS0pS0kV6uQ

# Gweddi Greadigol

## Hipos Llwglyd!

Yn y stori ddywedodd Iesu, roedd y dyn cyfoethog eisiau mwy a mwy. Roedd yn farus fel yr hipo yn y gêm! Beth ydy'r pethau sydd werth eu cael yn ein bywyd tybed?
Mae Iesu'n dweud ein bod angen Duw yn fwy na dim.

**Byddi angen:**
- 4 wyneb hipo
- 5 cwpan blastig
- Marblys (tua 20 neu fwy)
- Rhaff/cortyn neu gylch ("hoola hoop")



**Paratoi:**
- Lliwia 4 wyneb hipo yn 4 lliw gwahanol.
- Torra wynebau'r 4 hipo allan.
- Gluda wyneb hipo ar bob cwpan.
- Rho'r marblys yn y gwpan arall.
- Gosoda'r rhaff neu'r cortyn mewn siâp cylch.



**Sut i chwarae:**
- Mae pob chwaraewr yn gosod ei gwpan wrth ymyl y rhaff tu mewn i'r cylch.
- Arllwysa'r marblys yng nghanol y cylch.
- Mae pob chwaraewr yn ceisio dal gymaint o farblys ag sy'n bosibl gyda'i gwpan nes fod pob marblen wedi ei dal.
- Yr enillydd yw'r un gyda'r mwyaf o farblys.
- Wrth i chi chwarae, gweddïwch dros y rhai sydd heb ddigon o fwyd i'w fwyta.

---

## Bendithion Swigod Sebon



Chwytha swigod sebon y tu allan.
Mae pob swigen yn cynrychioli bendith (rhywbeth da) mae Duw yn ei roi i ni. Meddylia am y bendithion mae Duw wedi eu rhoi i ti wrth i ti chwythu'r swigod sebon. Wedi i ti chwythu'r swigod sebon meddylia am yr adegau ti wedi bod braidd yn hunanol ac wedi anghofio am y bendithion mae Duw wedi eu rhoi mor hael i ti.




Mae ein stori'r wythnos hon wedi ei chynnwys mewn llyfr bach gwych o'r enw 'Storïau'r Meistr.' Beth am archebu copi i'w fwynhau gyda'ch teulu?

http://www.gwales.com/goto/biblio/en/9781859945575/?lang=CY&tsid=1

# Rysáit



## Y 'Ffŵl' cyfoethog

Weithiau gelwir stori heddiw yn ddameg y ffŵl cyfoethog.
(yn Saesneg, 'the rich fool')

**Byddi angen:**

- Pecyn o 'Angel Delight' neu debyg - siocled neu butterscotch sydd orau
- Rhai ceiniogau siocled
- 300ml / Hanner peint - llefrith/llaeth
- Bowlen i gymysgu / jwg
- Chwisg






**Dull:**

- Dilyna'r cyfarwyddiadau ar y pecyn i wneud yr 'Angel Delight.'
- Gymysga fo'n dda.
- Rho'r 'Angel Delight' yn yr oergell i setio.
- Ar ôl iddo setio, rho'r ceiniogau siocled ar ei ben i'w addurno a'I fwynhau'i gyda dy deulu.

# Canu



Peidiwch â chasglu'ch trysorau ar y ddaear
lle gallent gael eu difrodi neu eu dwyn
Casglwch eich trysorau yn y nefoedd
lle na all unrhyw beth effeithio nhw.
Sut bynnag, beth bynnag, ble bynnag mae'ch trysor,
dyna lle bydd eich calon chi.
Sut bynnag, beth bynnag, ble bynnag mae'ch trysor,
dyna lle bydd eich calon chi.

Mathew pennod 6,
Mathew pennod 6,
Adnod 19 i 21.



*Hawlfraint 2008 Greg Leavers*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/-s9iXiFjy00

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org